Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru



# Cynllun Corfforaethol

2023/24 – 26/27

# Yr hyn a wnawn

Am dros ddeg mlynedd ar hugain, buom yn gweithio gyda chi, ein haelodau, i wneud Cymru yn wlad lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

Gyda'n gilydd fe wnaethom gymryd camau breision tuag at gyflawni'r nod hon, ond gwyddom fod cymdeithasau tai a'u tenantiaid yn wynebu pwysau newydd a heriau nas gwelwyd eu tebyg.

Bydd y cynllun hwn yn nodi'r camau a gymerwn i gefnogi ein haelodau i gynnal eu cymunedau tra'n bod yn parhau i frwydro dros y newidiadau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth.





**DROS Y PEDAIR** blynedd nesaf bydd ein ffocws ar y camau fydd yn cefnogi ein haelodau i wneud y gwahaniaeth mwyaf yn eu cymunedau. Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau cyllid sefydlog a digonol a fframwaith polisi i gefnogi buddsoddiad mewn cartrefi a gwasanaethau cymorth newydd a chyffrous.

Byddwn yn gwneud hyn drwy gynrychioli ein haelodau, gan weithredu fel llais dylanwadol i sicrhau newid. Gweithredwn fel hyb i ddod â chi ynghyd i ganfod datrysiadau ar y cyd i'r heriau a wynebwn. Erbyn 2027, rydym eisiau i'r sector fod wedi carlamu ymlaen unwaith eto, ac wedi cyflawni pob un o'r nodau a nodir isod.

1. **Sicrhau'r dulliau gweithredu, cyllid a pholisi sy'n cefnogi cartrefi ansawdd da gan gymdeithasau tai.**
2. **Dylanwadu ar yr amgylchedd polisi fel y gall cymdeithasau tai barhau i ddarparu cartrefi sy'n fforddiadwy a bod yn effeithiol wrth gefnogi tenantiaid sy'n wynebu caledi ariannol.**
3. **Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn cymdeithasau tai a'u cefnogi i adeiladu partneriaethau cryf yn lleol.**
4. **Sicrhau bod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol.**

Rydym wedi gosod camau clir ar gyfer pob un o'r nodau hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau'n atebol i'n haelodau.

*Caiff mwy o wybodaeth ar bob un o'r rhain eu nodi isod ➳*

# Nod:

## Sicrhau'r dulliau gweithredu, cyllid a pholisi sy'n cefnogi cartrefi da gan gymdeithasau tai.

1





**Byddwn yn dylanwadu i sicrhau'r newidiadau dilynol:**

- System safonau sy'n cefnogi cartrefi presennol ansawdd da ynghyd â chyllid, dulliau gweithredu a sicrwydd priodol.
- Model cyllido hirdymor a chynaliadwy sy'n cyfuno cyllid cyhoeddus a phreifat i ddatgarboneiddio tai cymdeithasol yng Nghymru, ynghyd â chefnogaeth a chynlluniau sy'n galluogi'r buddsoddiad i aros yng Nghymru.
- Mesurau sy'n dod â bwrlwm a sicrwydd i'r broses datblygu.
- Cyllid i liniaru effeithiau cynnydd gormodol mewn costau ynni ar gyfer tenantiaid.
- Ymagwedd mwy hyblyg ac ystwyth at ddyrannu a defnyddio cyllid llywodraeth ar gyfer cartrefi newydd a phresennol.

**Byddwn yn cysylltu ein haelodau gydag arbenigwyr diwydiant a'i gilydd er mwyn:**

- Cefnogi gwaith i wella ansawdd tai cymdeithasol.
- Cefnogi cadwyni sgiliau a chyflenwi lleol sy'n cefnogi'r economi lleol drwy fuddsoddi yn ein cartrefi newydd a phresennol, a chreu swyddi a chyfleoedd hyfforddi newydd.
- Datrys problemau a datod rhwystrau i fuddsoddiad a datblygiad.
- Rhannu dysgu ar yr hyn sy'n gweithio wrth ddatgarboneiddio cartrefi ac ymgysylltu tenantiaid.



**Yr hyn a welwch:**

- Rhaglen bolisi y gellir ei chyflawni ond sy'n uchelgeisiol i gynyddu effeithiolrwydd ynni tai cymdeithasol ynghyd â chynllun cyllid a gweithredu.
- Newidiadau polisi sy'n dileu rhwystrau i ddatblygu tai cymdeithasol newydd a gwella ansawdd cartrefi presennol.
- Llai o botiau cyllid grant unigol gyda gwahanol ofynion grant a chymhwyster i'w gwneud yn haws a chliriach cael cyllid lle mae ei angen.

# Nod:

## Dylanwadu ar yr amgylchedd polisi fel y gall cymdeithasau tai barhau i ddarparu cartrefi sy’n fforddiadwy ac yn rhoi cefnogaeth effeithiol i denantiaid sy’n wynebu caledi ariannol.



Cynllun Corfforaethol CHC 2023/24-26/27

**Byddwn yn dylanwadu i sicrhau’r newidiadau dilynol:**

- Dull gweithredu seiliedig yn lleol i osod rhenti sydd â’i ffocws ar atebolrwydd, tryloywder a gwerth am arian.
- Fframwaith rheoleiddiol sy’n cydbwyso sicrwydd i denantiaid, cyllidwyr a llywodraeth gyda hyblygrwydd lleol.
- Fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy’n cefnogi cymdeithasau tai i chwarae eu rhan lawn mewn dod â digartrefedd i ben.
- Cyllid ar gyfer gwasanaethau ataliol sy’n adlewyrchu’r cynnydd mewn galw a bod gan gymdeithasau tai fynediad i wasanaethau cymorth ar gyfer eu tenantiaid.

**Byddwn yn cysylltu ein haelodau gydag arbenigwyr diwydiant a’i gilydd i:**

- Rannu a datblygu eu gwaith i ymgynghori, ymgysylltu a cyd-ddatblygu gwasanaethau a phenderfyniadau gyda thenantiaid.
- Cefnogi dull gweithredu dan arweiniad lleol at fforddiadwyedd yn cynnwys cefnogaeth parhaus ar gyfer ein offeryn data fforddiadwyedd.



**Yr hyn a welwch:**

- Fframwaith diwygiedig ar gyfer gosod rhenti sy’n rhoi blaenoriaeth i wneud penderfyniadau lleol a fforddiadwyedd.
- Newidiadau i’r amgylchedd polisi a deddfwriaethol sy’n cefnogi cymdeithasau tai i chwarae eu rhan i ddod â digartrefedd i ben.
- Aelodau yn cefnogi a rhannu i adeiladu eu dulliau ymgysylltu effeithlon â thenantiaid.
- Cynnal a chynyddu cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau sy’n atal digartrefedd a pholisïau a dulliau gweithredu sy’n cefnogi symud i ymagwedd aml-asiantaeth.

# Nod:

## Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn cymdeithasau tai a'u cefnogi i adeiladu partneriaethau cryf yn lleol.

3



Cynllun Corfforaethol CHC 2023/24-26/27

**Byddwn yn dylanwadu i sicrhau'r newidiadau dilynol:**

- Cefnogaeth ar gyfer ailgydbwyso sector cyhoeddus yn y tymor hirach ymaith o argyfwng i atal tymor hirach
- Polisi a chyllid sy'n cefnogi pobl i fyw'n annibynnol a gydag urddas gyda chymorth tai ansawdd uchel
- Hyrwyddo system cyllid a chomisiynu gofal cymdeithasol sy'n galluogi cymdeithasau tai i dalu'n deg i staff gofal a chymorth a darparu gwasanaethau gofal a chymorth ansawdd uchel a hyfyw.

**Byddwn yn cysylltu ein haelodau gydag arbenigwyr diwydiant a'i gilydd er mwyn:**

- Cefnogi cymdeithasau tai i adeiladu perthnasoedd effeithiol yn lleol a rhanbarthol ar faterion megis iechyd a chryfhau economïau lleol.
- Cyhoeddi gwybodaeth allweddol am gymdeithasau tai a chefnogi cymdeithasau tai i gynnal a gwella eu tryloywder i denantiaid.
- Cefnogi gwasanaethau gwerth am arian.
- Adnewyddu ein cod llywodraethiant a rheolau enghreifftiol.
- Cyflwyno'r achos dros rôl tai da mewn gostwng diffyg cydraddoldeb mewn iechyd a rhannu gwaith ein haelodau i gefnogi'r bobl a'r lleoedd y maent yn gweithio ynddynt.



**Yr hyn a welwch:**

- Cymdeithasau tai yn cael eu cydnabod fel sector sy'n cyflawni ac a werthfawrogir gan randdeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol.
- Barn ein haelodau yn cael ei chynrychioli ar y cyfryngau cenedlaethol yng Nghymru a gerbron gwneuthurwyr penderfyniadau cenedlaethol, gyda chefnogaeth i ddweud eu stori ar lefel leol.
- Rôl tai mewn gostwng diffyg cydraddoldeb mewn tai yn cael ei chydnabod gan wneuthurwyr penderfyniadau.
- Gwelliannau i'r ymagwedd at gyllid gofal a chymorth a chomisiynu sy'n dangos gwir gostau darparu gwasanaethau ansawdd da a diogel.

# Nod:

## Sicrhau bod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol.

4



Cynllun Corfforaethol CHC 2023/24-26/27

**Byddwn yn:**

- Dweud eich stori mewn ffordd afaelgar.
- Buddsoddi yn ein galluedd ymchwil i gefnogi a llywio ein gwaith eiriolaeth yn well. Bydd hyn yn cynnwys ein Cyfrifon Cynhwysfawr ac ymchwil gweithlu.
- Sicrhau fod gennym y systemau, polisïau a diwylliant cywir i alluogi ein tîm staff i gyflawni ar y lefel uchaf.
- Moderneiddio ein Gwasanaethau Cymorth i alluogi ein staff i weithio'n effeithiol fel sefydliad sy'n gweithio'n gyfangwbl o bell.
- Buddsoddi yn iechyd a llesiant ein tîm staff a sicrhau fod y polisïau a'r buddion cywir gennym i ddenu, cymell a chadw ein tîm.
- Creu gweithle amrywiol lle gall pobl fod eu hunain yn llawn, ac y bydd y rhai y darparwn wasanaethau ar eu rhan ac ar eu cyfer yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn drwy gyflenwi ein *strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant*.
- Buddsoddi mewn llywodraethiant cryf i sicrhau ein bod yn atebol i'n haelodaeth.
- Buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth i sicrhau ein bod yn darparu ein gwasanaethau mewn modd ymatebol, amserol a chynhwysol.
- Sicrhau ein bod yn ariannol gynaliadwy ac yn darparu gwasanaethau gwerth am arian i'n haelodau.
- Sicrhau fod y systemau, dulliau a chyfleoedd cywir gennym i alluogi adborth effeithlon gan aelodau.



**Yr hyn a welwch:**

- CHC gyda ffocws ar ddeilliannau gyda chyfathrebu rheolaidd am yr hyn a gyflawnwn ar ran aelodau.
- Cynnyrch a gwasanaethau ychwanegol, a chydweithio pellach gyda phartneriaid masnachol i helpu cymdeithasau tai y i gyflawni eu nodau.
- Sefydliad mwy amrywiol a chynhwysol.
- Tîm staff gyda chymhelliant uchel ac a gaiff eu cefnogi.

# Aros ar y trywydd i gyflawni ein nodau



Cynllun Corfforaethol CHC 2023/24-26/27

**I sicrhau y cawn ein dal yn atebol am ein gwaith gan ein haelodau, byddwn yn:**

- Cyhoeddi cynllun blynyddol sy'n dangos sut mae'r gwaith a wnawn bob blwyddyn yn mesur yn erbyn y genhadaeth hon.
- Adrodd ein heffaith i'n haelodau yn flynyddol o leiaf.
- Gwyddom fod yr amgylchedd allanol y mae ein haelodau yn gweithredu ynddo yn newid yn gyflym. Byddwn yn adolygu cynnydd y cynllun hwn ar y pwynt hanner ffordd ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol a pharhau ein dull ystwyth i ymateb i faterion newydd fel y codant.

**Sut y byddwn yn gweithio:**

- Byddwn yn gweithio wrth ochr ein haelodau i weithredu fel llais effeithlon a chredadwy i'r sector.
- Byddwn yn gweithio mewn ffordd ystwyth, gan ddefnyddio technoleg i ddod â'n haelodau ynghyd ar faterion trawsbynciol.
- Byddwn yn gweithredu fel hyb, gan gysylltu cydweithwyr, arbenigwyr diwydiant a chyfleoedd.
- Byddwn yn defnyddio ein partneriaethau masnachol a digwyddiadau er budd aelodau.






Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

**Ymholiadau cyffredinol**
www.chcymru.org.uk | 02920 674 800

Cofrestrwd dan y Ddeddf Cwmniau 1985 | Rhif Cofrestru: 2380564 | Rhif Cofrestru Elusen: 1128527